CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
**Cadeirydd:** Alun Owen
Nos Lun Gorffennaf 3ydd 2023 am 7.30 y.h.

# Cofnodion (108)

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd Cyng. Gari B Jones

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Alun Owen, Gethin Pyrs.
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Edmund Rees, Gwynfor H Roberts, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda - neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Mehefin** cynigiwyd yn gywir gan ER gydag GBJ yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:**
   - 5.1.1. Angen trefnu noson i glirio'r strwythur pren.
   - 5.1.2. Cysgodfa Bys wedi ei yswirio.
   - 5.1.3. Swyddog Ystadau a Rheoli ystadau – nid oedd y swyddog yn fodlon dod i gyfarfod ac aelodau o'r Cyngor i ateb cwestiynau yn ymwneud a Sgubor Rin a'r Maes Parcio gerbron.
6. **Gohebiaeth:**
   Dim
7. **Monitro'r Gyllideb:**
   - i) Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
   - ii) Edrychwyd dros y fantolen banc a'i derbyn yn gyflawn.
8. **Talu Anfonebau:**
   - 8.1. Iona Edwards cyfrifydd cynigiodd GHR gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o £55.00 + TAW £11.00 = **£66.00** gyda siec rhif **100392.** (S151)
9. **Cais Cynllunio:**
   Cyfeirnod: 0/50832
   Ymgeisydd: Mr Kevin Sharp
   Cynllun: Codi estyniad un llawr arfaethedig i ochr a chefn yr annedd presennol, gosod porch blaen newydd, codi garej/adeilad gweithdy un llawr newydd a gwaith cysylltiedig.
   Safle: The Mount, Rhydlydan, Pentrefoelas.
   Archwiliwyd y cynlluniau yn fanwl ac nid oedd gwrthwynebiad na sylwadau i'r Cais.
   Roedd y Cyng. Sirol yn bresennol ond ni chymerwyd rhan yn y drafodaeth.
10. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwenno Ellis:** Roedd wedi mynychu cyfarfod gydag aelodau o Bwyllgor Y Llyfrgell yng Ngherrig a'r penderfyniad oedd galw'r cynllun yn 'Hwb Uwchaled'.
11. **Unrhyw fater arall:**
    - 11.1. Angen torri'r coed yn y parc picnic a threfnu fod cynrychiolydd o Gonwy yn dod i fynnu i weld y gwaith sy angen ei wneud.
    - 11.2. Mae Sgip Gymunedol wedi eu harchebu ar gyfer dydd Mawrth Medi 12fed 2023 a phosteri wedi ei gosod i hysbysebu'r dyddiad.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** Medi 4ydd 2023 (i'w gadarnhau)

Arwyddwyd__________________________________ Dyddiad __04.09.23
Cadeirydd